Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Trannon

**Trefeglwys**
**Y Drenewydd**
**Powys**
**SY17 5PH**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Trannon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Dyffryn Trannon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Dwyieithog |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 131 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 96 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 26 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 6.4% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran genedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 15.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 32.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/01/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 30/04/2013 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion Ysgol Dyffryn Trannon yn mwynhau dysgu ac maent yn frwdfrydig yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau o gwmpas yr ysgol. Mae ganddynt agweddau cryf at ddysgu oherwydd y berthynas waith gadarnhaol sy'n bodoli gyda'u hathrawon a'r cymorthyddion. O ganlyniad, mae awyrgylch ddedwydd a chynhwysol yn treiddio drwy'r ysgol, ac mae'r ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd.

Mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu'n gynhyrchiol ac yn ymhyfrydu yn eu gwersi. Mae'r addysgu'n gadarn, ac er bod angen cysoni'r arferion i ymateb i waith disgyblion, mae angerdd yr athrawon i greu gwelliannau yn diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd pwrpasol wrth ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth, ac maent yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn. Mae'r cynllunio yn fanwl ac yn cynnwys ystod ddiddorol o brofiadau dysgu sy'n cael eu darparu ar gyfer y disgyblion. Fodd bynnag nid yw'r cynllunio yn cefnogi dilyniant effeithiol a chyson ym medrau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r holl staff yn hyrwyddo ethos cadarnhaol o gymorth a gofal i ddisgyblion ym mhob ardal o'r ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad eu hunain yn dda. O ganlyniad, mae eu hunanddisgyblaeth yn cyfrannu at agweddau cadarnhaol at ddysgu ymysg ei gilydd a gwytnwch i ddyfalbarhau â thasgau. Mae'r staff yn cymell disgyblion i fagu hyder ynddynt eu hunain fel unigolion, yn ogystal â datblygu parch a sensitifrwydd tuag at deimladau pobl eraill.

Mae medrau siarad a gwrando'r disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol, a gwnânt gynnydd cyflym yn eu medrau darllen a digidol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r medrau hyn yn llwyddiannus ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gwbl effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a bwriadus, ac mae hi'n benderfynol i lwyddo er lles y disgyblion a'r ardal leol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn rhannu ei gweledigaeth bwrpasol, ac maent yn cydweithio'n dda i sicrhau bod yr ysgol yn llwyddo.

Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol ymhlith y staff ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer eu dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ysgol gyfan ffyniannus lle, ar y cyfan, mae'r staff, ac yn enwedig y disgyblion, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau i fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau a chodi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm

A3 Cynllunio dilyniant effeithiol ym medrau disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol

A4 Cysoni’r arferion wrth ymateb i waith disgyblion ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n is na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn cyflawni'n effeithiol ynglŷn â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y ffrydiau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n arbennig o dda ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn hyderus i gyflwyniadau. Er enghraifft, maent yn ymateb i gyfarwyddiadau manwl yr athrawes yn gydwybodol, wrth iddynt ddysgu technegau lleisio a chanu 'Dros yr Enfys' fel rhan o'u thema. Mae medrau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n fyrlymus am sut mae lliwiau'r enfys yn cael eu ffurfio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu medrau llafar graenus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd o fewn eu dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion y ffrwd Saesneg yn datblygu medrau llafar cadarnhaol yn y Gymraeg.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus gan egluro'r cynnwys. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn amrywio goslef eu lleisiau ac yn defnyddio atalnodi yn fwriadus i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, wrth ddod o hyd i wybodaeth am Nelson Mandela fel rhan o'r gwaith thema, maent yn dyfnhau eu dealltwriaeth o degwch, cyfiawnder a hawliau pobl eraill.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, fel coladu ffeil ffeithiau am lwynog yr Arctig. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr ffurfiol i wneud cais am swydd ddychmygol fel animeiddiwr ac yn ysgrifennu bywgraffiad William Shakespeare yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw safon ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion yn adeiladu ar y medrau a gyflwynwyd iddynt mewn gwersi iaith.

Ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Yn y dosbarth derbyn, mae gan ddisgyblion afael dda ar ffeithiau rhif hyd at 20 ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 100. Yn ogystal, maent yn llwyddo disgrifio

nodweddion a phriodweddau siapiau tri-dimensiwn yn gywir wrth adeiladu castell y cawr yn stori 'Jac a'r Goeden Ffa'. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn llunio onglau llem ac aflem yn hyderus ac yn defnyddio rhaglenni casglu data yn llwyddiannus, wrth gymharu tymheredd y lleoliadau poethaf ac oeraf ar y ddaear. Fodd bynnag, er bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol, nid yw ychydig yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon wrth gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus. Maent yn mewngofnodi'n hyderus ar lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o feddalwedd priodol, fel tynnu lluniau ar sgrîn i egluro cylch bywyd pili pala yn y drefn gywir. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w ddefnyddio at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o raglenni cyflwyno gwybodaeth yn fedrus, fel mewnosod clipiau sain, testun, graffeg a chlipiau fideo i greu cyflwyniad ar losgfynydd mynydd Nyiragona yn Siapan.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn drwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau ysgogol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i gydbwyso a theithio ar lwybrau antur yn yr awyr agored a dawnsio gwerin. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau corfforol yn dda wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel dawnsio creadigol, ioga a nofio.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel o fewn naws ofalgar a theuluol yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yr ysgol yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyried eu bod yn cael eu trin a pharch a bod eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi a'i gyfleu'n fwriadus yn arwyddair yr ysgol: 'Pawb o bwys yn ein hysgol ni'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder at eu bro a'u hysgol, ac maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a'u treftadaeth. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at les ac agweddau dysgu'r disgyblion, ac mae eu cyfraniadau'n ganolog i ethos a gweledigaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae'r holl ddisgyblion wedi llwyddo i grisialu eu hegwyddorion at ddysgu a'u balchder o'r ysgol yn gelfydd wrth gyfansoddi geiriau i anthem newydd yr ysgol dan arweiniad aelodau band cyfoes o'r ardal gyfagos. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at les y disgyblion gan ei fod yn eu hysgogi i ddeall bod eu cynefin yn hollbwysig i'w dyfodol.

Mae ymddygiad bron bob disgybl o fewn gwersi, gweithgareddau ac amseroedd egwyl yn glodwiw a chanmoladwy. Maent yn gwrtais ac ystyriol o eraill ac yn dangos parch a gofal amlwg tuag at oedolion cyfarwydd, cyfoedion ac ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau gan oedolion ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ymroi i'w tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gydwybodol a chytûn gyda'u cymheiriaid, er enghraifft wrth iddynt weithio gyda phartner i gynllunio ryseitiau bwydydd iachus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn llwyddo I ddylanwadu’n gadarnhaol ar themâu'r dosbarth. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u dyheuadau wrth gyfrannu i fapiau meddwl ar ddechrau thema dymhorol. O ganlyniad, maent yn datblygu'r gallu i wneud penderfyniadau a myfyrio ar eu dysgu, fel cyfranogi'n chwilfrydig yn eu heriau yn annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu technegau meddwl perthnasol i’w helpu i lwyddo a dyfalbarhau wrth ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn defnyddio strategaethau fel ‘Meddwl, Mêt, Tria Eto a Miss’ yn effeithiol i symud ymlaen gyda'u tasgau. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dygnwch a hyder wrth ddyfalbarhau â'u gwaith yn eu dosbarthiadau ac wrth ymroi i dasgau mentrus yn yr awyr agored.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith fanteisiol ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi’n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol, fel ’10 y dydd’, sydd wedi eu cynllunio’n bwrpasol gan lysgenhadon efydd yr ysgol er mwyn datblygu’n unigolion iach a hyderus. Mae gan ddisgyblion wybodaeth gadarn am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn ddiogel ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb. Maent yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y maent yn ymchwilio i hanes a bywyd yr arweinydd Martin Luther King ac yn ystyried yr hyn sy’n cyfrannu at gymdeithas sy’n parchu hawliau dynol.

Mae lles ac agweddau at ddysgu'r disgyblion yn gadarn oherwydd eu hymglymiad brwdfrydig i ddatblygu eu medrau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, yn gyfranwyr parod wrth ddatblygu eu medrau artistig. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn fentrus tra'n arbrofi’n llwyddiannus gydag amrywiaeth o gyfryngau, fel defnyddio dyfrliwiau yn gelfydd i baentio planhigyn ffa byw. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau fel cyfranwyr uchelgeisiol a chreadigol yn effeithiol. Maent yn cyfrannu’n eiddgar i'w thema ar rolau gweithwyr penodol yn eu hardal wledig, fel y milfeddyg.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arweiniol a chyfrifoldebau. Maent yn chwarae rhan gynhyrchiol ym mywyd a gwaith yr ysgol fel aelodau o’r cyngor ysgol ac amrywiol bwyllgorau eraill. Mae cynrychiolwyr yn mynd i’r afael â’u gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau, a thrwy hyn, maent yn cyfrannu’n werthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau’r pwyllgor eco yn casglu pecynnau creision er mwyn eu hailgylchu i greu blancedi ar gyfer pobl ddigartref.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r berthynas broffesiynol rhwng staff a disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn teilwra gweithgareddau'n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion, sy'n cynnwys y rhai sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth ddiwyd i'r disgyblion hyn, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt gwblhau eu gwaith yn annibynnol. Mae cyflymder sionc i lawer o'r gwersi yn ennyn diddordeb disgyblion yn fedrus ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r cyflwyniadau i wersi yn hir ac, o'r herwydd, mae ychydig o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu dysgu.

Mae addysgu'r athrawon a'r cymorthyddion yn gadarn a chaiff disgyblion ystod o brofiadau i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon Blwyddyn 3 a 4 yn darparu cyfleoedd heriol ar gyfer y disgyblion i gyfansoddi a chyflwyno caneuon gyda symbolau cerddorol. O ganlyniad, maent yn canu gydag ystum ac ystyr wrth ddilyn cyfarwyddiadau 'mezzo forte' a 'mezzo piano' yn ddeallus. Yn ogystal, mae disgyblion o Flynyddoedd 3 i 6 yn ysgrifennu llythyrau a chreu ffilmiau i berswadio gwleidyddion i roi'r gorau i ddefnyddio plastig fel rhan o'u hymgyrch i geisio achub moroedd y byd.

Mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n hyrwyddo diddordeb disgyblion am yr ardal leol wrth astudio Trefeglwys gan greu murlun o'r pentref yng nghyntedd yr ysgol gyda chefnogaeth arlunwraig enwog. Yn ogystal, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio geirfa a chysyniadau moesol trwy fynychu bedydd ffug 'Blodyn y doli' yn yr eglwys leol. Fodd bynnag, er bod llu o brofiadau yn cael eu darparu er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau, nid yw'r cynllunio'n adeiladu'n systematig ar y medrau hyn o'r naill flwyddyn i'r llall yn gwbl effeithiol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cymell disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn yr hoffent eu dysgu'n dda trwy lenwi mapiau meddwl ar y cyd ar ddechrau thema. Maent yn cymryd sylw da o awgrymiadau disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Maent yn croesawu eu safbwyntiau ac yn eu defnyddio'n effeithiol wrth baratoi gweithgareddau. Er enghraifft, yn dilyn awgrymiadau'r disgyblion, aeth y disgyblion hynaf i'r siop leol i greu arwyddion dwyieithog i'r perchennog. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn awyddus i rannu eu profiadau ag eraill yn yr ardal leol a thu hwnt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddigwyddiadau byd-eang ac amrywiaeth y byd. Yn ogystal, mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn llwyddiannus ac mae'r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu ac arferion priodol wrth ymateb i waith disgyblion yn ystod gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu'r disgyblion, ac i

dargedu unrhyw anghenion yn brydlon. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr wrth ymateb i adborth a sylwadau ysgrifenedig eu hathrawon. Fodd bynnag, nid yw'r arferion i ymateb i waith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn llesteirio dealltwriaeth lleiafrif o ddisgyblion i ddeall sut a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith a symud i'r cam nesaf yn eu dysgu. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau blynyddol cynhwysfawr am gynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu tawel a diddorol lle mae pob ardal yn cael ei defnyddio'n bwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r staff ar draws yr ysgol yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn i'r adeilad i ysgogi'r disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio'r mannau awyr agored sydd ar gael yn dda, lle mae cyfleoedd wedi eu cynllunio'n fwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau ynghylch beth a sut y maent yn dewis dysgu. Mae hyn yn cynnwys creu cacennau yn y gegin fwd ac adeiladu cestyll yn y dosbarth derbyn a chwarae rôl ar lwyfan ym Mlwyddyn 1 a 2. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r perthnasoedd clòs rhwng y staff a'r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn arwain at gymuned ofalgar, gydag ethos cyfeillgar a chynnes. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae ymagweddau'r staff a'r awyrgylch gadarnhaol ym mhob dosbarth yn cefnogi disgyblion i ymgartrefu'n hawdd a chyfrannu'n dda i fywyd yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu bodlonrwydd a'u lles ac yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at ddysgu.

Mae'r athrawon yn dilyn systemau sefydlog i gasglu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn cynnwys asesiadau ffurfiol a chofnodion anffurfiol, sy'n plethu i greu darlun cynhwysfawr am yr unigolyn. O ganlyniad, mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn asesu cyflawniadau a lles disgyblion yn fanwl, sy'n golygu bod y staff yn datblygu dealltwriaeth gadarn o anghenion pob disgybl. Er enghraifft, os yw'r staff yn nodi materion i wella, maent yn cydweithio â'r cydlynydd ADY i ddarparu rhaglenni cymorth bwriadus i wella dysgu'r disgyblion a'u medrau personol a chymdeithasol.

Mae'r rhaglenni cymorth i wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion yn strwythuredig ac yn effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae bron bob disgybl a dargedir yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae sesiynau cefnogi, sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, yn effeithiol, ac maent yn cefnogi ychydig o ddisgyblion i 'fwrw mewn' a 'bwrw mas' ar ddechrau a diwedd y dydd i drafod eu teimladau. Mae hyn yn cyfoethogi eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol, ac mae'n eu galluogi i rannu eu teimladau ag eraill yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion. Maent yn cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn fedrus. Er enghraifft, mae'r cydgysylltydd ADY wedi gweithio'n agos gydag ysgolion lleol trwy eu grŵp cydgysylltwyr. Mae hyn yn arwain at gymorth gwerthfawr i staff ddeall eu rolau newidiol wrth gefnogi disgyblion ag

anghenion ychwanegol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ofalgar a chynhwysol.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er bod y pandemig wedi llesteirio'r  profiadau hyn, mae'r disgyblion hynaf wedi mynd ar daith breswyl i Gwm Elan yn ddiweddar. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn ymweld â pharciau gwledig a ffermydd ieir lleol sy'n ennyn a chynnal eu diddordeb i ddysgu yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae trafodaethau ar drychinebau byd eang, fel y rhyfel yn yr Wcrain yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol yn cael eu darparu i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru, sy'n cynnwys hanesion lleol, fel trychinebau Siôn y Gôf yn Nylife a chwedl Sabrina a'i bywyd mewn potel yn yr afon Hafren.

Mae'r ysgol yn cyflwyno gweithgareddau synhwyrol sy'n archwilio hawliau dynol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Mae'r dulliau strwythuredig hyn, mewn gwersi personol a chymdeithasol, yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion archwilio materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o bob rhan o'r byd. Elfen gadarnhaol o'r gwersi yw eu bod yn annog trafodaethau deallus gan ddisgyblion, sy'n datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn cymharu credoau Cristnogol ac Iddewig ac yn ystyried y gogoniannau a'r drasiedi sy'n amgylchynu bywyd arwyr rhyngwladol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu pwysigrwydd cadw'n ddiogel. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio asiantaethau fel yr heddlu i dynnu sylw disgyblion at beryglon camddefnyddio sylweddau a'u haddysgu am reolau diogelwch ar y rhyngrwyd. Yn ogystal, caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro yn drwyadl, ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio honedig yn dda.

Mae'r holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyfrannu'n gadarn at ddiogelwch a lles disgyblion. Maent yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn elfennau blaengar ym mywyd yr ysgol. Mae'r arweinwyr wedi gwreiddio diwylliant o ddiogelu ystyrlon ymysg yr holl staff ac mae'r arferion yn rhan annatod o'u cyfrifoldebau dyddiol. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod lles y disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu dysgu wrth wraidd ei weledigaeth. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ei hathroniaeth ac, ar y cyfan, mae'r staff yn gweithredu'n ddiwyd ar ddisgwyliadau'r arweinwyr. Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i greu a threiddio awyrgylch gofalgar a chynhwysol ymysg yr holl staff a'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r staff a'r disgyblion yn ymfalchïo yn anthem yr ysgol ac yn gweithredu'n feddylgar ar linellau fel 'A phawb yn parchu ti a fi'. Mae'r meddylfryd cadarnhaol hwn, a'r ymdrech gan yr arweinwyr i greu ethos o gydweithio, yn cael effaith bwrpasol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu a'u gofal tuag at ei gilydd.

Mae’r trefniadau i ddosbarthu rolau arwain ac i ddwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn datblygu’n dda ac yn deillio o arferion rheoli perfformiad cywrain. Mae’r arweinwyr yn canolbwyntio ar fireinio ansawdd yr addysgu ac i ymgorffori dealltwriaeth gyffredin o werthoedd proffesiynol ymhlith y staff. O ganlyniad, wrth greu gwell cysondeb yn arferion yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gweithredoedd y staff yn gyson ac yn canolbwyntio ar ddarparu prosesau cytûn er lles y disgyblion. Er enghraifft, mae’r cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn datblygu’n effeithiol ac yn dechrau gyda’r ardal leol fel sbardun, sy’n cynnwys hanesion diddorol am gronfa ddŵr Clywedog.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a’r meysydd i'w datblygu. Mae'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gadarn. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau'n effeithiol ac yn pennu targedau dibynadwy i symud yr ysgol ymlaen, fel gwella medrau llafar a darllen y disgyblion ar ôl y pandemig. Yn ogystal, mae’r arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol gyda'r holl staff.

Mae prosesau'r arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn sefydlog ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r systemau i wella ansawdd yn cynnwys cynnal sgyrsiau gyda’r disgyblion am eu gwaith, monitro’r addysgu fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad staff a dadansoddi data sy’n mesur cynnydd disgyblion. Mae’r arweinwyr yn casglu barnau partneriaid eraill yn effeithiol ac yn ystyried barnau rhieni a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau’n synhwyrol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ap yn llwyddiannus i arddangos profiadau dyddiol y disgyblion i’w rhieni yn gyson.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu perthnasol ar gael i staff er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Un o nodweddion cadarnhaol y broses yw bod y staff yn datblygu medrau y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i wella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yn trefnu hyfforddiant i ddatblygu’r cynllunio ymhellach wrth ymateb i ddisgwyliadau cenedlaethol a sicrhau cynnydd ieithyddol ar draws yr ysgol drwy ddefnyddio cynllun llafaredd defnyddiol.

Mae'r ysgol yn ymweld ag ysgolion y clwstwr ac ysgolion ar draws Powys i brofi eu harferion effeithiol, ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae’r strategaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd gyda gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r staff yn cael cyfleoedd cynhyrchiol, sy'n datblygu eu gwybodaeth broffesiynol, eu haddysgu a'u medrau arwain. Mae'r diwylliant hwn o ddysgu proffesiynol yn gwella arferion ac addysgu’r holl staff ar lawr y dosbarth ac yn yr awyr agored.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r safle. Mae hyn yn cynnwys mannau awyr agored diddorol fel coetir, ardaloedd plannu a llwybrau antur. Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n effeithiol ac maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i ddarparu rhaglenni cymorth penodol a hyfforddiant ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae’r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen gyda'u dysgu.

Mae mewnbwn y llywodraethwyr, trwy is-bwyllgorau a’r corff llawn, yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr presennol yn

gefnogol i'r pennaeth ac maent yn ei dwyn i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae’r pennaeth yn hysbysu'r llywodraethwyr yn ddeallus am ddysgu disgyblion ac maent yn gweithredu'n dda ar wella'r ddarpariaeth, fel gosod canopi a chyfarpar allanol i ddatblygu’r gweithgareddau awyr agored. Mae’r llywodraethwyr yn hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac mae’r arweinwyr yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu pecynnau bwyd.

Mae'r llywodraethwyr yn manteisio ar ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau’r ysgol, sydd o fudd i greu gwelliannau. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â theithiau dysgu ac yn trafod gwaith gyda’r disgyblion ar-lein i fesur dealltwriaeth y disgyblion o’u gwaith. Mae hyn yn caniatáu i lywodraethwyr ddatblygu ymwybyddiaeth werthfawr o arferion cyfredol yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn monitro'r cyllid yn rheolaidd ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel buddsoddi mewn staff ychwanegol i ddatblygu’r Gymraeg ar draws yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2022